



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# Cyrchddulliau a dulliau effeithiol mewn addysg drochi: Crynodeb o ganfyddiadau Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-83625-275-7

## Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Diffinio addysg drochi.....	5
Canfyddiadau'r Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth.....	7
1. Effeithiolrwydd cyflwyno a defnyddio iaith neu ieithoedd ar wahân i'r iaith darged ar wahanol gamau taith addysgol ac ieithyddol y dysgwr.....	8
2. Effeithiolrwydd cyflwyno a chynnal addysg drochi i ddysgwyr gwahanol oedrannau h.y. nodweddion darpariaeth effeithiol o ran addysg drochi gynnar, canolig a hwyr.....	13
Stratagaethau Trochi Cynnar (hyd at 7 mlwydd oed).....	13
Stratagaethau Trochi Hwyr (ar ôl 7 mlwydd oed).....	21
3. Cyrchddulliau i ymdrin ag amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol a phrofiadau ieithyddol blaenorol ymhlith carfannau neu grwpiau o ddysgwyr.....	28
4. Ystyriaethau penodol sydd yn haeddu sylw o ran Angehnion Dysgu Ychwanegol (ADY) a darpariaeth drochi.....	32
Termau.....	39
Llyfryddiaethau.....	41

## Cyflwyniad

Diben y crynodeb hwn yw cyflwyno canfyddiadau asesiad cyflym o'r dystiolaeth (ACD) ynghylch gyrchddulliau a dulliau effeithiol mewn addysg drochi. Comisiynwyd yr astudiaeth gan Lywodraeth Cymru, a chynhaliwyd yr ymchwil gan IAITH ar y cyd ag ymchwilyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd, rhwng Ionawr a Hydref 2023.

Seiliwyd yr astudiaeth ar y cwestiwn ymchwil canlynol:

Beth mae'r llenyddiaeth yn ei ddweud wrthym am gyrchddulliau a dulliau addysg drochi effeithiol ac am addysgeg effeithiol mewn addysg drochi?

Gofynnwyd pedwar cwestiwn ymchwil eilaidd:

- i) Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am effeithiolrwydd cyflwyno a defnyddio iaith neu ieithoedd ar wahân i'r iaith darged ar wahanol gamau taith addysgol ac ieithyddol y dysgwyr?
- ii) Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am effeithiolrwydd cyflwyno a chynnal addysg drochi i ddysgwyr gwahanol oedrannau h.y. beth yw nodweddion darpariaeth effeithiol o ran addysg drochi gynnar, canolig a hwyr?
- iii) Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthym am gyrchddulliau i ymdrin ag amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol a phrofiadau ieithyddol blaenorol ymhlith carfannau neu grwpiau o ddysgwyr?
- iv) A oes ystyriaethau penodol sydd yn haeddu sylw o ran anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth addysg drochi?

Mae [adroddiad llawn a chrynodeb gweithredol](#) ar fethodoleg a chanfyddiadau'r ymchwil wedi eu cyhoeddi. Bwriedir i'r crynodeb hwn gynnig arweiniad i athrawon, hyfforddwyr, darparwyr hyfforddiant a myfyrwyr dan hyfforddiant yng Nghymru. Dylai fod o ddefnydd i'r canlynol yn benodol:

- ymarferwyr sy'n gweithio mewn lleoliadau meithrin a ariennir nas cynhelir;
- addysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith, a chanolfannau trochi, a
- darparwyr hyfforddiant cychwynnol a darparwyr datblygiad proffesiynol y gweithlu addysg.

Mae'r cyrchdulliau a'r dulliau sy'n cael eu trafod yn y crynodeb hwn yn berthnasol i addysg disgyblion 3-16 oed yng Nghymru.

Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn gosod addysg drochi drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghydestun ehangach y dystiolaeth ryngwladol sydd ar gael am nodweddion addysg drochi effeithiol. Fodd bynnag, dylid cofio y gallai darpariaeth effeithiol edrych yn wahanol yng Nghymru o'i gymharu â chyd-destunau rhyngwladol. Wrth gynllunio darpariaeth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd, dylai anghenion ac amgylchiadau penodol i Gymru fod yn ystyriaeth ganolog.

### **Beth yw Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth (ACD)?**

Math o adolygiad tystiolaeth yw ACD sy'n cynnwys casgliadau ar nodweddion y dystiolaeth sydd ar gael ar bwnc neu faes penodol. Mae'n cynnwys arfarniad beirniadol o'r dystiolaeth, a synthesis o'r hyn mae'r dystiolaeth yn ei ddangos. Mae'n anelu at osgoi tuedd, gan ddisgrifio pob cam yn dryloyw er mwyn llunio adolygiad gwrthrychol a thrylwyr.

### **Manteision ac Anfanteision cynnal ACD**

Mantais ACD yw ei fod yn cynnig dull o archwilio, mapio a chategoreiddio tystiolaeth berthnasol yn gyflym, heb esgeuluso nodweddion allweddol megis asesu ansawdd y dystiolaeth. Mae cyflymder ACD hefyd yn un o'i gyfyngiadau. Mae angen cadw'r ffocws yn gul, a hynny'n golygu fod penderfyniadau'n gorfod cael eu gwneud ynghylch pa gronfeydd data a meini prawf cynnwys sydd i'w defnyddio. Mae'n bwysig cadw'r manteision a'r anfanteision hyn mewn cof wrth ystyried y canfyddiadau.

### **Methodoleg yr astudiaeth**

Cyflwynir isod grynodedb o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd i gynnal yr astudiaeth. Ceir gwybodaeth fanylach yn y prif adroddiad.

Dilynwyd cyfres o gamau i ganfod, sgrinio ac archwilio'r llenyddiaeth. Defnyddiwyd meini prawf i gynnwys ac eithrio eitemau drwy broses iteratidd o fireinio a diffinio cwmpas yr astudiaeth.

### Cam 1

Fel cam cychwynnol, lluniwyd proses gynhwysfawr o archwilio'r llenyddiaeth ar draws sawl cronfa ddata. Penderfynwyd pa dermau oedd fwyaf tebygol o gael eu cynnwys mewn llenyddiaeth ar addysg drochi, gan dynnu ar arbenigedd y tîm ymchwil a thrwy ymgynghori ag ymarferwyr, hyfforddwyr, darparwyr hyfforddiant ac arweinwyr system sy'n gweithio yn y maes, mewn cyfarfod grwp ffocws rhithiol. Cafodd termau chwilio eu treialu, ar sail y meini prawf canlynol:

- **math o gyhoeddiad:** defnyddiwyd erthyglau mewn cyfnodolion, llyfrau, penodau mewn llyfrau, adroddiadau, adolygiadau, llenyddiaeth lwyd a thraethodau hir
- **amrediad dyddiadau cyhoeddi:** penderfynwyd cynnwys eitemau a oedd wedi eu cyhoeddi rhwng 2000 a 2023
- **iaith cyhoeddi:** Cymraeg a Saesneg

Gwahoddwyd arbenigwyr ag adnabyddiaeth o'r maes addysg drochi yn rhyngwladol i dynnu sylw'r tîm ymchwil at gyhoeddiadau ymchwil a fyddai'n berthnasol ar gyfer yr astudiaeth, o'u profiad hwy, ac a oedd yn cwrdd â'r meini prawf sgrinio. Fe'u holwyd hefyd am enghreifftiau o ymchwil gyfredol ac ymchwil ar fin ei chyhoeddi. Derbyniwyd 44 eitem gan un o'r arbenigwyr a dilynwyd yr un drefn o ran sgrinio ac echdynnu gwybodaeth ar gyfer yr eitemau hyn.

### Cam 2

Wedi casglu'r llenyddiaeth berthnasol (4,342 o eitemau), cafwyd cam sgrinio er mwyn sicrhau bod y llenyddiaeth yn trafod effeithiolrwydd rhywbeth roedd modd ei adnabod fel cyrchdull neu ddull mewn sefyllfa o addysg drochi, a'i fod yn berthnasol i addysg drochi yng Nghymru. Cafwyd cyfanswm o 180 o eitemau a wnaeth gwrdd â'r meini prawf yng Ngham 2.

### Cam 3

Roedd y cam hwn yn cynnwys echdynnu gwybodaeth ac asesu ansawdd a phwysau'r dystiolaeth ar gyfer y 180 eitem, gan ddefnyddio Ffurflen Echdynnu Data a oedd yn cynnwys 53 o gwestiynau i gasglu gwybodaeth allweddol o bob eitem. Cafwyd cyfanswm o 65 o eitemau a oedd wedi derbyn sgôr pwysoli uchel ac a aeth ymlaen i Gam 4, sef datblygu'r synthesis.

#### Cam 4

Lluniwyd synthesis o ganfyddiadau'r astudiaethau. Parhaodd y broses iteraidd o fireinio cwmpas yr adolygiad wrth i'r synthesis gael ei lunio. Yn sgil y broses hon, cafodd 41 eitem eu cynnwys yn y synthesis terfynol.

Yn yr astudiaethau a gafodd eu cynnwys yn y synthesis, roedd amrywiaeth o fethodolegau gan gynnwys adolygiadau, arbrofion, astudiaethau barn, ac astudiaethau carfan. Roedd rhan fwyaf y dystiolaeth o Unol Daleithiau America, gydag amrywiaeth o wledydd eraill hefyd wedi eu cynnwys.

#### Paratoi crynodeb i ymarferwyr

Paratowyd crynodeb o ganfyddiadau'r ACD ar gyfer ymarferwyr, hyfforddwyr a darparwyr hyfforddiant. Gwahoddwyd y rhanddeiliaid a ddaeth i sesiwn Grŵp Ffocws 1 i ail sesiwn Grŵp Ffocws er mwyn iddynt gael cyfle i gynnig eu barn a'u sylwadau ar fersiwn ddrafft o'r crynodeb.

## Diffinio addysg drochi

Defnyddir y term addysg drochi yn gyffredinol fel profiad dysgwyr o dderbyn addysg drwy gyfrwng iaith yr ysgol, a bod yr iaith honno yn wahanol i iaith yr aelwyd (defnyddir y term L1 wrth gyfeirio at yr iaith hon). Caiff y term L2 ei ddefnyddio wrth gyfeirio at yr ail iaith a addysgir (defnyddir hefyd y term 'iaith darged'). Mae'r rhain yn dermau cydnabyddedig yn y maes wrth gyfeirio at iaith gyntaf ac ail iaith.

Ceir gwahanol ddehongliadau o sut y gweithredir addysg drochi yn dibynnu ar y cyd-destun (Estyn, 2022).<sup>[1]</sup> Er enghraifft, mewn rhai achosion, mae addysg drochi yn cyfeirio at addysg a roddir i blant o deuluoedd sydd wedi mudo (o wlad dramor i wlad newydd) ac sydd bellach yn cael eu trochi yn iaith yr ysgol (sef iaith fwyafrifol eu gwlad newydd). Enghraifft o hyn yw mudwyr o Syria yn mynychu ysgol yn Sweden. Mewn achosion eraill, cyfeiria addysg drochi at sefyllfa disgyblion sy'n dysgu yn eu gwlad enedigol ond sy'n cael eu trochi (yn yr ysgol) mewn iaith arall. Enghraifft o hyn yw plant yn mynychu ysgol Mandarin yn yr UDA.

Mae addysg drochi yng Nghymru fel arfer yn gyfuniad o'r hyn a adnabyddir yn rhyngwladol fel 'addysg drochi' ac 'addysg iaith treftadaeth'. Mae'r ail yn derm sy'n cyfeirio at ystod eang o raglenni sy'n anelu at ddarparu cyfle i ddysgwyr ddatblygu lefel hyfedredd uwch mewn iaith dreftadaeth (Estyn, 2022).

Yng Nghymru, mewn dosbarthiadau lle mae'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, mae dysgwyr sydd yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd yn cael eu haddysgu ar y cyd â dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. Er bod addysg y dosbarth yr un fath i'r dysgwyr, mae'r dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg gartref yn derbyn addysg drochi. Yn yr ystyr hwn, cyfeirio at y math o ddysgwr (un sydd yn derbyn addysg drwy gyfrwng iaith nad yw'n siarad ar yr aelwyd) mae 'trochi', yn hytrach nag at yr addysg ei hun.

Mae'r sefyllfa addysg drochi yng Nghymru yn gallu bod yn wahanol i'r sefyllfa mewn rhai cyd-destunau yn rhyngwladol. Yn benodol, gall fod yn wahanol o ran faint o addysg sy'n cael ei darparu drwy gyfrwng yr iaith darged. Mae pob dull neu gyrchddull a ddisgrifir yn y crynodeb hwn yn targedu dysgwyr sy'n cael eu trochi mewn iaith neu ieithoedd gwahanol i iaith yr aelwyd mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae'r crynodeb hwn yn gwahaniaethu rhwng dau brif gategori o addysg drochi yn unol â diffiniadau Llywodraeth Cymru:

## Trochi cynnar

Addysg drochi gynnar yw profiad y rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yng Nghymru; hynny yw, maent yn dilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o ddechrau eu haddysg statudol (mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg), neu'n gynt os ydynt yn derbyn addysg feithrin yn dair neu bedair oed, naill ai mewn lleoliadau meithrin a gynhelir neu leoliadau meithrin nas cynhelir. Mewn addysg drochi gynnar yng Nghymru mae'r Gymraeg fel arfer yn cael ei chyflwyno fel unig iaith yr addysgu 'hyd at a chan gynnwys y flwyddyn ysgol y mae mwyafrif y dysgwyr yn troi'n 7 oed' (Estyn, 2022:7).

Mae addysg drochi gynnar ar gael hefyd cyn yr oedran hwn, mewn gwahanol fathau o leoliadau gofal plant: meithrinfeydd dydd preifat, cylchoedd chwarae a chylchoedd meithrin. [2] Mae yna amrywiaeth o ran cefndir ieithyddol y dysgwyr, ynghyd â'r cyfleoedd sydd ganddynt i ddod i gysylltiad â'r Gymraeg yn gymdeithasol a gyda'u teuluoedd.

## Trochi hwyr

Cyfeirir at y trochi yn yr achosion canlynol fel 'trochi hwyr' neu 'trochi canolig' (yn dibynnu ar oedran yr hwyrddyfodiaid) (Williams, 2008):[3]

- plant i deuluoedd sy'n mudo i Gymru,
- plant sydd yn newid o'r sector cyfrwng Saesneg i'r sector cyfrwng Cymraeg ar ôl dysgu sylfaen,
- plant i deuluoedd sy'n symud o ardal arall yng Nghymru.

At ddibenion yr astudiaeth hon, defnyddir y term 'trochi hwyr' i gyfeirio at y ddarpariaeth ar gyfer hwyrddyfodiaid sydd yn ymuno ag addysg Gymraeg ar ôl 7 mlwydd oed. Gall yr unigolion hyn ddod o gefndiroedd ieithyddol amrywiol, a gallant fod yn derbyn eu haddysg yng Nghymru eisoes, neu fod wedi symud i Gymru o Loegr neu wlad arall.

## Termau

Ceir rhestr dermau mewn atodiad ar ddiwedd y crynodeb hwn. Lluniwyd y rhestr at ddiben yr astudiaeth hon, ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu defnydd ehangach o'r termau hyn.



## Canfyddiadau'r Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth

Cyflwynir canfyddiadau'r asesiad cyflym o'r dystiolaeth yn ôl y pedwar cwestiwn eilaidd. Ym mhob achos, rhoddir disgrifiad cryno o'r strategaeth, sut y cafodd ei defnyddio (yn yr astudiaeth dan sylw), a'r effaith. Dylid cofio bod yr ieithoedd a addysgir yn yr astudiaethau isod oll yn cynrychioli cyd-destun addysg lle mae'r sefyllfa yn berthnasol i'r Gymraeg (hynny yw, addysg mewn iaith a ystyrir fel iaith leiafrifol mewn cyd-destun dwyieithog ac amlieithog). Mewn rhai achosion, ceir enghreifftiau o ieithoedd a ystyrir yn fwyafrifol ar lefel ryngwladol (e.e. Saesneg), ond yn y cyd-destunau penodol a drafodir, ystyrir yr iaith honno yn iaith leiafrifol.

# 1. Effeithiolrwydd cyflwyno a defnyddio iaith neu ieithoedd ar wahân i'r iaith darged ar wahanol gamau taith addysgol ac ieithyddol y dysgwr

Roedd wyth eitem o dystiolaeth yn trafod effeithiolrwydd cyflwyno a defnyddio iaith neu ieithoedd ar wahân i'r iaith darged ar wahanol gamau taith addysgol ac ieithyddol y dysgwr.

## Targedu cymhwysedd ieithyddol

1. **Beth:** Llythrennedd pâr – sef addysgu llythrennedd yn y ddwy iaith o ddechrau'r cyfnod ysgol statudol.

**Sut:** Mewn astudiaeth hydredol gan Butvilofsky et al. (2016) yn Unol Daleithiau America, cynhaliwyd sesiynau llythrennedd gyda dysgwyr dwyieithog 3-11 mlwydd oed (**Sbaeneg-Saesneg**) yn seiliedig ar raglen llythrennedd, 'Literacy Squared', ar gyfnodau gwahanol yn ystod y diwrnod ysgol. Yn yr ymyrraeth hon, caiff llythrennedd yn y ddwy iaith ei addysgu o ddechrau'r cyfnod ysgol statudol ar gyfnodau gwahanol yn ystod y diwrnod ysgol. Wrth i ddysgwyr fynd yn hŷn, gwneir ymdrechion i dynnu sylw at gysylltiadau ar draws y ddwy iaith ac adeiladu strategaethau i'w cefnogi i wneud y cysylltiadau hynny'n annibynnol.

**Effaith:** Aseswyd y dysgwyr dros gyfnod o dair blynedd a gwelwyd eu bod yn gwneud cynnydd sylweddol mewn llythrennedd yn y ddwy iaith. Gwelwyd y cynnydd mwyaf yn **Sbaeneg** i gychwyn ac yna gwelwyd cynnydd sylweddol yn natblygiad llythrennedd **Saesneg** pan oedd y dysgwyr rhwng 9 ac 11 mlwydd oed.

2. **Beth:** Defnyddio llyfrau darllen sy'n cynnig stori yn y ddwy iaith.

**Sut:** Mae Leighton (2022) yn gwerthuso effaith ymyrraeth llythrennedd ysgol gynradd 'Children's Book Initiative' (CBI) a gynhaliwyd gan fudiad Achub y Plant ym Mangladesh gyda phlant 6 oed. Bwriad yr ymyrraeth oedd gwella llythrennedd mewn ardal lle roedd cyfrwng iaith addysg statudol (**Bangla**) yn wahanol i iaith aelwyd mwyafrif y dysgwyr. Yn yr ymyrraeth defnyddiwyd llyfrau stori oedd yn cyfuno iaith y dosbarth a iaith leol y dysgwyr.

**Effaith:** Yn dilyn cyfnod o ddwy flynedd, gwelwyd cynnydd arwyddocaol yng nghanlyniadau llythrennedd y dosbarth a chanlyniadau llythrennedd ieithoedd aelwyd y dysgwyr.

### Strategaethau yn y dosbarth

3. **Beth:** Mae Lightbown (2014) yn trafod nodweddion gorau rhaglenni trochi mewn adolygiad o'r llenyddiaeth.

**Sut:** Mae'r adolygiad yn trafod ystod o ddulliau a chyrchddulliau a ddefnyddir mewn ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y byd, yn ymwneud yn bennaf â'r ffordd y caiff gwersi eu strwythuro.

**Effaith:** Dengys adolygiad Lightbown bod angen:

- amserlennu cyfnod hir (miloedd o oriau) er mwyn dysgu iaith;
- ymroi i gyfnodau dwys o drochi (sef bod y gwersi yn digwydd mewn sesiynau hirach);
- cyflwyno cynnwys academaidd sydd yn herio ac yn diddori'r dysgwyr;
- addysgu trwy gyfrwng yr iaith darged er mwyn cael yr effaith fwyaf ar drosglwyddo'r iaith gan ganolbwyntio ar lythrennedd dysgwyr yn ogystal â llafaredd (yn iaith gyntaf y dysgwyr a'r iaith darged);
- cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith y tu hwnt i'r dosbarth, oddi mewn a thu hwnt i amgylchedd yr ysgol.

4. **Beth:** Arferion iaith y dosbarth, yn seiliedig ar waith Mady (2019).

**Sut:** Mae'r astudiaeth hon yn archwilio safbwyntiau athrawon newydd yng Nghnada ar ddefnyddio ieithoedd mewn dosbarthiadau trochi **Ffrangeg** fel ail iaith lle roedd dysgwyr **Saesneg** hefyd yn bresennol. Ymhlith y cyfranogwyr a holwyd, sef athrawon newydd gymhwysu, ystyriwyd Ffrangeg fel yr iaith darged i'w modelu i ddysgwyr. Cynigiwyd dau brif reswm am hyn: i gefnogi datblygiad ieithyddol mewn Ffrangeg ac i leihau'r bwlch rhwng dysgwyr Saesneg a dysgwyr rhugl yn y Saesneg. Bwriad yr athrawon oedd cyfyngu eu defnydd o'r Saesneg, cynyddu eu defnydd o'r Ffrangeg, tra ar yr un pryd bod yn agored i ddefnyddio ieithoedd cartref eu dysgwyr. Roedd athrawon hefyd yn manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio iaith gyntaf y dysgwyr er mwyn dangos cysylltiadau â'r iaith darged (Ffrangeg).

**Effaith:** Ceir awgrym yn yr astudiaeth fod rhai athrawon yn poeni am effaith addysg drochi ar fyfyrwyr o ieithoedd aelwyd amrywiol.

5. **Beth:** Effaith addysg drochi ar ganlyniadau iaith a llythrennedd plant: Hipfner-Boucher et al. (2016).

**Sut:** Ffocws yr astudiaeth oedd plant 6 mlwydd oed o Ganada oedd yn siarad **Tsieiinëeg** adref ac oedd yn mynychu tri math o raglen addysgol gwahanol, sef trochi **Ffrangeg**, addysg ddwyieithog **Tsieiinëeg-Saesneg** ac addysg gwbl **Saesneg**.

**Effaith:** Gwelwyd yng nghanlyniadau'r dysgwyr bod y rhai a aeth i'r rhaglen drochi Ffrangeg wedi sgorio yn arwyddocaol uwch o ran ymwybyddiaeth ffonolegol a darllen geirfa Saesneg na'r rhai aeth drwy'r systemau addysg ddwyieithog Tsieiinëeg-Saesneg ac addysg gwbl Saesneg. Noda awduron yr astudiaeth fod addysg drwy gyfrwng y Ffrangeg neu Tsieiinëeg yn gallu hwyluso caffael Saesneg, ar sail y dystiolaeth sydd wedi'i chyflwyno ganddynt.

6. **Beth:** Ceir trafodaeth am gyfrwng iaith y dosbarth mewn rhaglenni trochi ysgolion cynradd amrywiol yn Rolstad et al. (2005).

**Sut:** Mae'r gwaith yn ystyried 17 o astudiaethau sy'n trafod y defnydd o ieithoedd ar wahân i'r iaith darged.

**Effaith:** Mae'r awduron yn dod i'r casgliad bod defnyddio dulliau sy'n defnyddio iaith gyntaf y dysgwyr fel cyfrwng addysg yn fanteisiol iddynt wrth gaffael yr iaith darged.

7. **Beth:** Model 2-1-L2 mewn cyd-destun ysgol uwchradd yn Arizona, Unol Daleithiau America, yn seiliedig ar waith Przymus (2016).

**Sut:** Yn y model 2-1-L2, mae gwersi 90 munud eu cael eu strwythuro fel a ganlyn: 30 munud o drochi un iaith, 30 munud o drochi yn yr iaith arall, a 30 o ddefnyddio'r ddwy iaith mewn arferion megis trawsieithu.

**Effaith:** Cyrchddull arloesol yw hwn ac yn ôl yr awdur, Przymus, mae sefydlu gofod yn y cwricwlwm ar gyfer trochi mewn dwy iaith a thrawsieithu yn rhoi cyfle i bob myfyriwr ddatblygu hyder wrth ddefnyddio eu hail iaith oherwydd eu bod hefyd yn cael yr un gefnogaeth gyda'u hiaith gyntaf. Gwelwyd cynnydd yn lefelau hyder y dysgwyr wrth ddefnyddio'r ddwy iaith, ar ôl ymgymryd â'r model 2-1-L2.

8. **Beth:** Ymyrraeth ddarllen gan ddefnyddio technoleg.

**Sut:** Mae Leacox a Jackson (2014) yn edrych ar effaith dysgu darllen drwy'r **Saesneg** gyda chyfarwyddyd geirfa ategol sy'n pontio â'r **Sbaeneg** gyda grŵp o ddysgwyr o dde-ddwyrain Unol Daleithiau America. Gwnaethpwyd hyn wrth ddefnyddio technoleg ac ymyrraeth ddarllen wedi'i harwain gan oedolyn gyda phlant rhwng 4 a 8 mlwydd oed. Darllenwyd yr un stori i ddau grŵp (un gyda'r ymyrraeth dechnoleg, ac un heb) sawl tro dros gyfnod o wythnos.

**Effaith:** Yn y garfan o ddysgwyr a dderbyniodd yr ymyrraeth dechnoleg, gwelwyd gwell perfformiad o ran caffael geirfa nag yn y garfan oedd yn derbyn ymyrraeth ddarllen wedi'i arwain gan oedolyn. Fodd bynnag, oherwydd bod y pecyn ymyrraeth gyda thechnoleg yn cynnwys nifer o strategaethau addysgu gwahanol, nid oedd modd profi pa nodweddion oedd fwyaf effeithiol (e.e., diffiniadau wedi'u hehangu, ailadrodd llafar neu bontio gyda Sbaeneg).

Mae'r awduron yn dadlau bod cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r eirfa newydd yn gyson yn cefnogi dysgu geiriau a bod iaith gyntaf plentyn yn hyrwyddo caffael geirfa mewn ail iaith wrth ymgymryd â thasgau darllen e-lyfrau. pan fo cysyniad gyda chysylltiad label cryf mewn iaith gyntaf, mae'n arwain at gaffael y label yn yr ail iaith yn rhwyddach.

**Casgliadau: Effeithiolrwydd cyflwyno a defnyddio iaith neu ieithoedd ar wahân i'r iaith darged ar wahanol gamau taith addysgol ac ieithyddol y dysgwr**

- Er bod rhai awduron wedi canfod bod defnyddio'r iaith darged yn bennaf yn fuddiol mewn cyd-destunau trochi, ceir dystiolaeth bod defnydd achlysurol o iaith aelwyd y dysgwyr hefyd yn gallu bod o fudd i wneud cymariaethau rhwng ieithoedd gwahanol.
- Gwelir yn y dystiolaeth bod strwythuro'r defnydd o ieithoedd amrywiol (mewn sesiynau neu wersi penodol ar gyfer pob iaith) yn ogystal â dyrannu amser ar gyfer trawsieithu yn effeithiol.
- Noda'r dystiolaeth bod ymyraethau i ddatblygu sgiliau llythrennedd yn cael effaith gadarnhaol ar gaffael iaith, er enghraifft cynnydd mewn medrau darllen ac ymwybyddiaeth feta-ieithyddol. Fodd bynnag, roedd hyn yn ddibynnol ar sawl ffactor ac yn dibynnu ar y math o ymyraeth dan sylw.
- Cafwyd peth dystiolaeth am fanteision defnyddio technoleg i ddatblygu ymwybyddiaeth ffonolegol a chaffael geirfa wrth ddysgu iaith, ond mae'n anodd nodi ar sail y dystiolaeth a gafwyd yn yr astudiaethau pa elfennau o'r dechnoleg sydd fwyaf effeithiol.

## 2. Effeithiolrwydd cyflwyno a chynnal addysg drochi i ddysgwyr gwahanol oedrannau h.y. nodweddion darpariaeth effeithiol o ran addysg drochi gynnar, canolig a hwyr

### Strategaethau Trochi Cynnar (hyd at 7 mlwydd oed)

Roedd 12 eitem o dystiolaeth yn trafod cyrchddulliau a dulliau darpariaeth addysg drochi gynnar.

#### Targeddu cymhwysedd ieithyddol

1. **Beth:** Datblygu sgiliau llythrennedd gan ddefnyddio rhaglen ymyrraeth yn seiliedig ar ffoneg.

**Sut:** Mae Reading (2009) yn cymharu sgiliau llythrennedd Saesneg dysgwyr 5-6 oed mewn ysgol drochi **Sbaeneg** ac mewn ysgol drochi **Ffrangeg**. Nid oedd y plant yn siarad Sbaeneg na Ffrangeg gartref. Y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer y ddau grŵp trochi Sbaeneg a Ffrangeg oedd rhaglen ffoneg yn cynnwys addysg benodol ar ddatblygu ymwybyddiaeth ffonemig, egwyddorion yr wyddor, sgiliau datgodio, a datblygu geirfa.

**Effaith:** Gwelwyd bod sgiliau llythrennedd dysgwyr yn gwella wrth ddysgu iaith ychwanegol. Roedd medrau llythrennedd y dysgwyr Sbaeneg yn well na medrau'r dysgwyr Ffrangeg oherwydd bod orgraff y Sbaeneg yn debycach i'r Saesneg (o'i gymharu â'r Ffrangeg).

2. **Beth:** Datblygu sgiliau llythrennedd: partneriaeth rhwng yr ysgol a'r cartref.

**Sut:** Mewn astudiaeth gan Tong et al., (2021), a gynhaliwyd yn Ne Tsieina, anogwyd rhieni i ymarfer sgiliau llafar, gwrando, darllen ac ysgrifennu yn **Saesneg** gyda'u plant 6-7 mlwydd oed. **Mandarin** oedd iaith y cartref. Roedd y gweithgareddau llythrennedd hyn wedi'u halinio â'r cwricwlwm.

**Effaith:** Gwelwyd gwelliant yn safon llythrennedd y dysgwyr ynghyd â chynnydd yn eu cymhelliant i barhau i ddysgu Saesneg o ganlyniad i'r ymyrraeth.

3. **Beth:** Datblygu sgiliau llafar mewn cyd-destun ysgol feithrin, yn seiliedig ar adolygiad systematig gan Wang (2021).

**Sut:** Wrth adolygu tystiolaeth o saith astudiaeth oedd yn edrych ar sut i gefnogi datblygiad llafaredd plant ifanc mewn trochi cynnar (**Saesneg** oedd yr iaith darged), mae Wang yn nodi bod y dulliau canlynol yn fuddiol wrth ddatblygu sgiliau llafar plant ifanc:

- cyfarwyddyd iaith sy'n integreiddio iaith lafar ac ysgrifenedig (yn fwy buddiol na chyfarwyddyd iaith lafar yn unig);
- ymyrraeth geirfa;
- cyfleoedd i ymgymryd â gweithgareddau llafar a llythrennedd.

**Effaith:** Gwelwyd bod sgiliau ffonolegol a gallu llafar dysgwyr yn well ar ôl yr ymyrraethau. Mewn un astudiaeth, strwythur y cyfarwyddyd oedd dan sylw, a gwelwyd bod dysgwyr yn gwella o ran eu gallu llafar mewn dosbarthiadau ble roedd addysgwyr yn rhoi mwy o gyfleoedd iddynt ymgymryd â gweithgareddau llafar a llythrennedd. Rhaid cyfuno'r dull hwn o gaffael iaith gyda dulliau eraill megis blociau addysgu iaith ar wahân, rhyngweithio effeithiol rhwng athro a dysgwr, a datblygiad proffesiynol staff.



**4. Beth:** Ymyraethau i gefnogi llafaredd.

**Sut:** Mae astudiaeth Schwarz et al. (2020) yn ystyried ymyraethau i gefnogi llafaredd dysgwyr ifanc, 4-6 oed, mewn cyd-destunau trochi cynnar **Arabeg** yn Iran. Noda eu hastudiaeth fod strategaethau megis defnyddio ailadrodd a cheisiadau penodol i ddefnyddio Arabeg yn y dosbarth yn cael effaith ar fedrau ieithyddol y dysgwyr. Nodir hefyd bod chwarae sosio-ddramatig wedi'i gyfryngu gan athrawon hefyd wedi cynyddu defnydd iaith Arabeg y plant yn y dosbarth. Yn y dull hwn y plant oedd yn arwain y chwarae, a'r athro yn defnyddio Arabeg wrth chwarae rôl gyda'r dysgwyr.

**Effaith:** Gwelwyd cynnydd yn nefnydd yr iaith darged gan ddysgwyr yn y dosbarth.

**5. Beth:** Llyfrau i blant yn eu hiaith gartref sy'n cynnwys geirfa benodol yn yr iaith darged.

**Sut:** Mae astudiaeth Read et al. (2020) yn archwilio sut roedd edrych ar lyfrau oedd wedi'u hysgrifennu yn iaith gartref y dysgwr, ond yn cynnwys cyfnewid cod i'r iaith darged, yn cefnogi dysgwyr 2-5 oed i gaffael geirfa newydd. Y cyd-destun yn yr achos hwn oedd sefyllfa ble roedd dysgwyr naill ai yn caffael **Saesneg** yn yr ysgol, ac yn siarad **Sbaeneg** gartref, neu yn caffael Sbaeneg yn yr ysgol ac yn siarad Saesneg gartref. Lleoliad yr astudiaeth oedd ardal fetropolitan yng ngorllewin Unol Daleithiau America. Cofnododd teuluoedd y dysgwyr gysylltiad o rhwng 10 a 56 awr yr wythnos gyda'u hail iaith.

**Effaith:** Roedd dysgwyr trochi yn fwy tebygol o gaffael geirfa newydd wrth ddefnyddio'r llyfrau â chyfnewid cod i'r iaith darged, nag oeddent trwy ddarllen llyfrau yn yr iaith darged yn unig. Mae'r awduron yn awgrymu y dylai llyfrau stori sy'n cynnwys cyfnewid cod gael eu darllen fel rhan o addysg siaradwyr dwy iaith, ar gyfer cynyddu amlygiad eu hieithoedd o fewn y dosbarth.

## Strategaethau yn y dosbarth

6. **Beth:** Addysgu gwahaniaethol – rhoi cyfleoedd i ymarfer yr iaith darged.

**Sut:** Mae Hickey (2007) yn edrych ar blant rhwng 3 a 5 oed yn Iwerddon a'r dull o grwpio dysgwyr **Gwyddeleg** L1 a L2 er mwyn cynyddu defnydd o'r iaith darged (yr iaith leiafrifol) yn gymdeithasol. Mewn dadansoddiad o'r rhwydweithiau ieithyddol a gafwyd yn y grwpiau hyn, gwelwyd nad oedd yr iaith darged wedi ei defnyddio yn gymdeithasol yn aml, a'r dysgwyr yn dewis siarad Saesneg yn hytrach gyda'i gilydd.

**Effaith:** Mae Hickey (2007) yn dod i'r casgliad bod angen rhoi cyfleoedd i blant ifanc allu defnyddio'r iaith leiafrifol mewn grwpiau o siaradwyr L1 yn unig (yn ogystal â rhoi cyfleoedd i blant L2 integreiddio) oherwydd bod cymysgu'r ddwy iaith yn cael effaith niweidiol ar y defnydd cymdeithasol o'r Wyddeleg.

7. **Beth:** Astudiaeth ar gaffael L1 a L2 ymysg plant meithrin.

**Sut:** Mae Bergström et al. (2016) yn cymharu rhaglen drochi **Saesneg** â rhaglen addysgu **Saesneg** L2 gonfensiynol dros gyfnod o ddwy flynedd a hanner. Roedd y plant rhwng 2 a 6 oed ac yn byw yn yr Almaen.

**Effaith:** Ni welwyd unrhyw effaith anffafriol o ganlyniad i'r trochi ar ddatblygiad iaith gyntaf y plant. Roedd holl ganlyniadau mesur ieithyddol L2 (Saesneg) y grŵp trochi yn well na'r grŵp oedd yn derbyn addysg Saesneg L2 gonfensiynol. Gwelwyd gwahaniaethau mwy rhwng y ddwy garfan o ddysgwyr yn eu medrau derbynol (receptive), sef deall geirfa a brawddegau, na'r gwahaniaethau a welwyd yn y mesurau cynhyrchu. Canfu'r awduron fod plant yn y grŵp trochi yn cynhyrchu mwy o eiriau na'r plant yn y grŵp addysgu confensiynol ar ôl 20 mis ond ni chafwyd unrhyw wahaniaethau rhwng y grwpiau hyn ar ôl 31 mis.

**8. Beth:** Safon iaith lafar athrawon yn y dosbarth a gallu llafar dysgwyr iaith deuol.

**Sut:** Astudiodd Kane et al. (2023) y berthynas rhwng safon yr iaith mae athrawon yn ei siarad yn y dosbarth a gallu llafar dysgwyr iaith deuol (**Sbaeneg** a **Saesneg**) rhwng 4 a 6 mlwydd oed. Lleoliad yr astudiaeth oedd Florida, Unol Daleithiau America. Gwelwyd bod athrawon yn tueddu i ddefnyddio dau fath penodol o siarad athro:

- rhoi cyfarwyddiadau, ac
- enghreifftiau o iaith mewn cyd-destun.

**Effaith:** Er y nodwyd bod tystiolaeth i'r iaith darged gael ei defnyddio mewn gwersi, nid yw'r mathau hyn o iaith darged o ansawdd uchel oherwydd nad ydynt yn caniatáu i'r siaradwr ymhelaethu ar y pwnc a drafodir. Mae'r erthygl yn nodi fod angen rhagor o ddatblygu proffesiynol ar athrawon ym maes defnydd iaith o ansawdd uchel yn nosbarthiadau dysgwyr deuol, er mwyn i siarad athro fod yn ddull effeithiol.

**9. Beth:** Cyfarwyddyd penodol (explicit instruction).

**Sut:** Mae Yeung et al. (2019) yn trafod cyfarwyddyd penodol a'r effaith arwyddocaol a welwyd o ddefnyddio'r dull hwn gyda dysgwyr rhwng 4 a 6 mlwydd oed yn Hong Kong dros gyfnod o 8 wythnos. Roedd y dysgwyr yn dod o deuluoedd lle roeddynt yn siarad **Tsieinëeg**, ac yn cael eu trochi am y tro cyntaf yn y **Saesneg**, er mwyn eu paratoi at addysg yn y ddwy iaith. Nodweddiion cyfarwyddyd penodol yn yr astudiaeth hon oedd canolbwyntio ar bedwar gair yn yr iaith darged ym mhob sesiwn dysgu. Roedd y geiriau newydd a gyflwynwyd yn anghyfarwydd i'r dysgwyr ond yn eiriau hawdd i'w hegluro, hynny yw nid oeddent yn eiriau haniaethol. I gefnogi'r sesiynau cyflwyno'r eirfa newydd, roedd gweithgareddau estynedig yn seiliedig ar y geiriau targed, a'r defnyddio lyfrau stori fel cyd-destun i'r dysgu.

**Effaith:** Gwelwyd cynnydd yng ngeirfa mynegiadol a derbyniol y dysgwyr hyn yn ogystal ag yn eu hymwybyddiaeth ffonolegol o ganlyniad i'r ymyrraeth. Mae'r awduron yn nodi y dylai ymarferwyr ganolbwyntio mwy ar ddatblygiad geirfa, a defnyddio dulliau megis cyfarwyddyd penodol.

**10. Beth:** Rôl technoleg wrth gynorthwyo datblygiad iaith.

**Sut:** Ffocws astudiaeth Outhwaite et al., (2020) oedd manteision rhaglenni technoleg oedd yn cynorthwyo trochi, gan ganolbwyntio ar ddatblygu medrau mathemateg plant rhwng 5 a 6 oed ym Mrasil. Roedd y dysgwyr yn siarad **Portiwgaleg Brasil** fel iaith yr aelwyd, ac yn derbyn addysg drwy ddull trochi **Saesneg**.

Defnyddiwyd rhaglen (ap) mathemateg i roi cyfarwyddyd un-i-un oedd yn canolbwyntio ar y plentyn (child-focussed) trwy ddefnyddio llun, sain ac animeiddio rhyngweithiol. Roedd y cyfarwyddyd yn rhoi amcanion, cyfarwyddiadau, ac adborth ffurfiannol clir a chyson i bob defnyddiwr. Roedd yr ap ar gael yn nwy iaith y plant (L1-Portiwgaleg Brasil, L2 – Saesneg). Gweithiodd y dysgwyr trwy'r apiau gyda chlustffonau unigol, ar eu cyflymder eu hunain, gan ailadrodd cyfarwyddiadau a gweithgareddau mor aml ag yr oedd angen.

**Effaith:** Roedd cynnydd arwyddocaol ym medrau mathemateg y dysgwyr ar ôl 10 wythnos o'r ymyrraeth yn eu dwy iaith. Er hyn, gwelwyd mwy o gynnydd o ran datblygu sgiliau mathemateg ymhlith dysgwyr oedd yn derbyn cyfarwyddiadau ym Mhortiwgaleg Brasil (hynny yw L1 y dysgwyr) na dysgwyr gafodd gyfarwyddyd yn Saesneg (y L2). Awgryma'r awduron bod rhaid i lefel cymhwysedd ieithyddol y dysgwyr fod yn ddigonol er mwyn gallu ymwneud â chyfarwyddiadau mathemateg.

## Priodweddau addysgwyr

11. **Beth:** Dulliau pedagogaidd athrawon wrth addysgu dysgwyr o ieithoedd cartref amrywiol.

**Sut:** Mae astudiaeth Hickey et al. (2013) yn canolbwyntio ar ddulliau pedagogaidd addysgwyr cylchoedd meithrin ar draws Cymru ac yn nodi fod angen ystyried dau brif fater, sef methodoleg trochi, a gwahaniaethu addysgu ar sail anghenion penodol y dysgwyr o fewn y fethodoleg hon. Roedd eu hasesiad ar effeithiolrwydd y dull trochi yn seiliedig ar farn addysgwyr.

**Effaith:** Mae'r awduron yn nodi fod angen ail-edrych ar hyfforddiant ar addysgeg trochi a sut i gynyddu'r defnydd o'r **Gymraeg** yn y dosbarth. Awgrymir bod angen i'r hyfforddiant gynnwys strategaethau ar gyfer addysgu gwahaniaethol (e.e. faint o'r iaith darged i'w defnyddio wrth roi cyfarwyddyd) er mwyn cynnal yr iaith gyntaf a throchi yn yr ail iaith.

O ran defnyddio'r iaith darged yn unig, mae'r awduron yn nodi'r angen i fynd i'r afael â chredoau a phryderon addysgwyr ynghylch lles plant ifanc, o ystyried yr amheuan a fynegwyd gan rai addysgwyr ynghylch defnyddio'r iaith darged yn unig. Yn ôl yr awduron, dim ond pan fydd y pryderon hynny'n cael eu lleddfu gan addysgwyr profiadol y gellir trafod dealltwriaeth o'r iaith darged mewn sefydliadau cyn ysgol a dulliau eraill o gefnogi mynegiant i helpu plant i ganfod ystyr.

Ceir hefyd gyfeiriad at grwpio dysgwyr fesul gallu yn yr astudiaeth. Ar sail yr ymchwil mae'r awduron yn dod i'r casgliad bod grwpio hyblyg er mwyn ymestyn y plant yn ieithyddol yn gallu cefnogi datblygiad y dysgwyr.

**12. Beth:** Materion allweddol ac ystyriaethau polisi ar gyfer addysg drochi yn y blynyddoedd cynnar.

**Sut:** Cyflwynir yng ngwaith Hickey a Mejía (2014) gynodeb o ddulliau a chyrchddulliau effeithiol yn y cyd-destun rhyngwladol o ran darpariaeth addysg drochi un iaith a dwyieithog, gan gynnwys:

- Hyfforddiant i staff wrth gyflwyno Rhaglen Geirfa, Iaith Lafar, a Pharodrwydd Academaidd (Vocabulary, Oral, Language and Academic Readiness, VOLAR) sydd yn gwella sgiliau iaith dysgwyr ifanc â nam iaith;
- Hyfforddiant ar gyfer addysgwyr i ddefnyddio mewnbwn iaith darged yn effeithiol yn y dosbarth.

**Effaith:** Yn seiliedig ar yr hyn a welwyd yn rhyngwladol, mae'r awduron yn dadlau mai her fwyaf arwyddocaol y sector addysg drochi yw hyfforddi addysgwyr newydd mewn methodolegau trochi, er mwyn cefnogi darpar-addysgwyr i ddarparu gweithgareddau priodol i ddatblygu caffael ieithyddol y plant. Yn ôl y dystiolaeth rhaid:

- hyfforddi staff sy'n darparu addysg drochi yn y blynyddoedd cynnar i fod yn hyblyg wrth gynllunio tasgau er mwyn gwahaniaethu yn ôl gallu'r dysgwyr ifanc,
- i addysgwyr hyrwyddo'r iaith darged fel cyfrwng cymdeithasol yn y dosbarth.

## Strategaethau Trochi Hwyr (ar ôl 7 mlwydd oed)

Roedd naw eitem o dystiolaeth yn trafod darpariaeth addysg drochi hwyr.

### Targeddu cymhwysedd ieithyddol

1. **Beth:** Dysgu darllen yn y ddwy iaith.

**Sut:** Mae astudiaeth Costa a Guasti (2021) yn edrych ar berfformiad darllen **Eidaleg** dysgwyr 6-11 oed (mewn tri dosbarth oedran gwahanol: oedran cymedrol grŵp 1= 6-7 oed, grŵp 2= 8-9 oed, grŵp 3= 10-11 oed) mewn dwy ysgol ym Milan a Rhufain, a oedd yn darparu addysg drochi ddeuol **Saesneg** ac Eidaleg, ac addysg uniaith Eidaleg. Cymharwyd rhaglenni trochi Saesneg â rhaglenni rheoli uniaith Eidaleg.

**Effaith:** Dengys canlyniadau'r astudiaeth nad oedd plant dwyieithog oedd yn derbyn addysg drochi ddeuol Eidaleg a Saesneg yn llai hyfedr mewn Eidaleg na phlant uniaith Eidaleg. Gwelwyd hefyd welliant mewn sgiliau Saesneg yn y grŵp addysg drochi ddeuol ar draws pob grŵp oedran, a bod cydberthyniad rhwng eu sgiliau darllen Eidaleg a Saesneg. Mae'r awduron yn dod i'r casgliad bod cyflwyno deunydd darllen mewn dwy iaith ar yr un pryd yn cefnogi llythrennedd dwyieithog mewn addysg drochi ddeuol.

2. **Beth:** Caffael sgiliau darllen mewn dwy iaith.

**Sut:** Mae astudiaeth Berens et al. (2013) yn archwilio effaith addysg drochi ar gaffael sgiliau darllen mewn dwy iaith ymhlith dysgwyr 7-9 oed yn Unol Daleithiau America. Roedd y dysgwyr, oedd naill ai yn siarad **Saesneg** neu **Sbaeneg** gartref, yn mynychu tri math o addysg gwahanol:

(a) addysg drochi ddeuol Sbaeneg a Saesneg 50:50,

(b) addysg drochi ddeuol Sbaeneg-Saesneg 90:10,

(c) addysg uniaith Saesneg (roedd dysgwyr yn y grŵp hwn ond yn siarad Saesneg gartref).

**Effaith:** Gwelwyd cynnydd mewn sgiliau darllen plant dwyieithog oedd yn dysgu mewn cyd-destun dysgu un iaith. Perfformiodd plant dwyieithog o gartrefi uniaith Saesneg a fynychodd ysgol Sbaeneg-Saesneg dwy iaith, gydag uchafswm o 50 y cant o'u haddysg yn Saesneg, yr un mor dda, a hyd yn oed yn well ar dasgau darllen Saesneg na'u cyfoedion uniaith Saesneg cyfatebol, gyda 100 y cant o gyfarwyddyd yn eu cyd-destun dysgu Saesneg uniaith. Roedd y dysgwyr addysg Sbaeneg-Saesneg 90:10 dwyieithog wedi perfformio'n well mewn tasgau darllen a thasgau iaith cyffredinol yn Sbaeneg na'r dysgwyr 50:50. Fodd bynnag mae'r awduron yn dadlau bod yr addysg 50:50 wedi arwain at gaffael darllen mwy cytbwys yn y ddwy iaith.

3. **Beth:** Cefnogi dysgu darllen gyda rhaglen ar-lein.

**Sut:** Mae Mak et al. (2017) yn edrych ar raglen oedd yn canolbwyntio ar gefnogi dysgu darllen gyda rhaglen ar-lein i ddysgwyr 6-7 oed oedd yn siarad **Tsieiniog** ar yr aelwyd yn Hong Kong. Roedd y rhaglen 'A Balanced Reading Approach for Children Always Designed to Achieve Best Results for All' (ABRA) yn cael ei chyflwyno drwy gyfrwng y **Saesneg** er mwyn cefnogi caffael Saesneg fel ail iaith yn Hong Kong. Mae ABRA yn gysylltiedig â ffonog yn nghwricwlwm yr ysgol ac yn cynnwys gwerslyfr ar bynciau megis rhannau'r corff, anifeiliaid a rhifau.

**Effaith:** Ar ôl i'r dysgwyr ymwneud â'r rhaglen ABRA, gwelwyd cynnydd arwyddocaol yng ngallu'r dysgwyr i gysylltu ffonemau â graffemau, i segmentu ffonemau, ac yn eu rhuglder geiriau nonsens. Yr awgrym gan yr awduron yw bod gwella sgiliau ffonolegol yn cefnogi llwyddiant wrth ddysgu Saesneg fel ail iaith.



#### 4. **Beth:** Pwysigrwydd darllen wrth drochi iaith.

**Sut:** Yn eu hadolygiad o 32 papur ymchwil, rhagdybiodd Graham et al. (2022) y byddai addysgu darllen yn gwella medrau darllen dysgwyr iau yn fwy na dysgwyr hŷn. Mae eu gwaith yn seiliedig ar ymchwil yn ymwneud â dysgwyr dwyieithog cyfodol (mewn addysg drochi ddeuol **Saesneg** a **Sbaeneg**). Yn yr erthyglau dan sylw, cyflwynir 38 o ddulliau neu gymariaethau addysgu darllen gwahanol (e.e., cyfarwyddyd ffoneg, cyfarwyddyd drwy gyfrifiadur, cyfarwyddyd darllen cyfoedion, cyfarwyddyd darllen gair cyfan, cyfarwyddyd darllen wedi'i leoli mewn astudiaethau cymdeithasol). Mewn rhai achosion, roedd yr ymyraethau dan sylw yn cael eu cyflwyno fel dosbarth cyfan, weithiau 1:1, weithiau mewn parau, ac weithiau mewn grwpiau bach (ni wyddys faint o ddysgwyr oedd yn y grwpiau hyn).

**Effaith:** Canfuwyd bod sgôr darllen ar gyfer plant iau oedd yn derbyn yr ymyraethau yn is na sgôr darllen dysgwyr 9-18 oed. Mae'r awduron yn dod i'r casgliad bod angen i athrawon ystyried sut i ddefnyddio ymyraethau darllen yn ofalus mewn dosbarthiadau lle mae dysgwyr dwyieithog cyfodol, gan addasu'r ymyraethau i wneud cyfarwyddyd yn fwy effeithiol lle bo angen.

### Strategaethau yn y dosbarth

#### 5. **Beth:** CLIL (Dysgu Cynnwys ac Iaith Integredig/Content and Language Integrated Learning) fel dull effeithiol o drochi dysgwyr hŷn.

**Sut:** Mae O'Ceallaigh et al. (2017) yn trafod profiadau athrawon a dysgwyr oedd yn ymgymryd â gwersi addysg gorfforol trwy'r **Wyddeleg** (L2) mewn ysgol cyfrwng **Saesneg** (L1) yn Iwerddon. Dysgwyr 9-10 oed oedd rhain, a gymerodd ran mewn cyfres o wyth o wersi drwy gyfrwng y Wyddeleg.

**Effaith:** Dengys dadansoddiad ansoddol o argraffiadau'r athrawon bod profiadau dysgwyr yn gadarnhaol iawn; bu cynnydd yn hyder y dysgwyr, eu teimlad o foddhad a'u gallu ieithyddol ar draws medrau gwahanol. Roedd ymarferwyr, yn ogystal, wedi nodi bod CLIL wedi ysgogi lefel o foddhad proffesiynol wrth ymgymryd â'u gwaith.

6. **Beth:** CLIL mewn ysgolion dwyieithog.

**Sut:** Mae astudiaeth Oattes et al. (2020) yn trafod y defnydd o CLIL mewn ysgolion dwyieithog trochi **Iseldireg** a **Saesneg** yn yr Iseldiroedd, ble roedd Saesneg yn iaith wahanol i iaith yr aelwyd. Eu ffocws oedd dysgwyr 12-13 oed a 14-15 oed oedd yn astudio Hanes drwy gyfrwng y Saesneg neu drwy gyfrwng yr Iseldireg, ac effaith hynny ar ganlyniadau profion yn y pwnc a gwybodaeth am y pwnc.

**Effaith:** Gwelwyd yng nghanlyniadau'r ymchwil fod y garfan iau o ddysgwyr (12-13 oed) yn y brif ffrwd, oedd yn dysgu drwy'r Iseldireg, wedi perfformio'n well na'r rhai oedd yn dysgu drwy'r Saesneg. Fodd bynnag, gwelir y gwrthwyneb yng nghanlyniadau'r garfan hŷn (14-15 oed), a oedd eisoes wedi derbyn dwy flynedd o addysg CLIL. Perfformiodd y dysgwyr oedd mewn addysg ddwyieithog (oedd yn astudio Hanes drwy'r Saesneg) yn ystadegol arwyddocaol well na'r rhai oedd yn y brif ffrwd. Ceir tystiolaeth yn yr ymchwil hwn hefyd fod perfformiad y dysgwyr mewn addysg dwyieithog yn well mewn prawf Hanes drwy gyfrwng yr Iseldireg. Dengys hyn nad yw addysgu pwnc Hanes drwy gyfrwng yr L2 yn cael effaith niweidiol ar ddefnydd L1 y dysgwyr yn y pwnc. Daeth yr awduron i'r casgliad bod y canlyniadau hyn yn ganlyniad i addysgeg CLIL oherwydd fod y dull hwn yn ysgogi dysgu dwfn.

7. **Beth:** Effaith iaith cyfarwyddyd ar ddysgwyr yn eu harddegau (13-16 oed).

**Sut:** Archwiliodd Pathak et al., (2021) effaith rhoi cyfarwyddiadau drwy'r L2 ar lythrennedd a sgiliau gwybyddol L1 mewn dwy ysgol yn Kathmandu. Roedd un o'r ysgolion yn addysgu drwy gyfrwng y **Saesneg** (L2) a'r llall drwy gyfrwng **Nepali** (L1).

**Effaith:** Prif ganfyddiad yr astudiaeth hon oedd bod y dysgwyr a aeth drwy addysg Saesneg yn perfformio'n well na'r rhai a addysgwyd drwy gyfrwng Nepali ar draws ystod o dasgau ieithyddol a gwybyddol. Dadleua'r awduron bod dysgwyr sy'n derbyn cyfarwyddyd drwy L2 yn elwa o ran datblygu dwyieithrwydd a deulythrennedd (biliteracy).

**8. Beth:** Cyfarwyddyd sy'n canolbwyntio ar ffurf (Form Focussed Intervention: FFI).

**Sut:** Mae ymchwil Ní Dhiorbháin ac Ó Duibhir (2016) yn canolbwyntio ar FFI anwythol (inductive), hynny yw, bod yr athrawon yn cyflwyno enghreifftiau o'r strwythur gramadegol ac yna bod y dysgwyr yn mynd ati i ganfod rheol drostynt eu hunain. Yn y cyd-destun hwn, roedd y dysgwyr 11-12 oed yn mynychu addysg drochi **Gwyddeleg** yn Iwerddon. Dros gyfnod o bedair wythnos, addysgwyd y cyflwr genidol mewn ffordd echblyg (sef, bod y myfyrwyr yn gallu adrodd y rheol yn glir ar lafar ac yn ysgrifenedig) a chynhaliwyd trafodaethau am y ffurf gyda'r addysgwr a rhwng cyfoedion.

**Effaith:** Ceir tystiolaeth yn yr ymchwil hwn fod cyrchddull echblyg ac anwythol yn helpu dysgwyr trochi i ddatblygu a chofio dealltwriaeth o reolau gramadeg. Rhoddwyd sylw hefyd i'r ffaith fod natur gymdeithasol y cyrchddull hwn yn fuddiol i'r dysgwyr, oherwydd bod gwybodaeth am y rheol wedi'i chyd-greu gyda chyfoedion a'r athrawon.

**9. Beth:** Defnyddio technoleg rhithrealiti wrth drochi.

**Sut:** Mae Tai a Chen (2021) yn trafod buddion defnyddio technoleg rhithrealiti wrth drochi dysgwyr **Saesneg**. Nod y rhaglen dechnoleg oedd gwella sgiliau gwranddo, lle'r oedd y cyfarwyddyd a'r mewnbwn yn y rhaglen yn cael eu cyflwyno drwy'r iaith darged. Derbyniodd carfan o ddysgwyr Saesneg 12-13 oed yn ngogledd Taiwan ymyrraeth addysgu iaith rhithrealiti drwy'r ap Mondly. Yn yr ap, cyflwynir sefyllfaoedd o realiti wedi'i efelychu, er enghraifft, mewn bwyty, ysbyty neu westy. Mae'r ap yn gallu adnabod llais yn awtomatig er mwyn caniatáu i'r dysgwyr ryngweithio drwy'r Saesneg gyda chymeriadau rhithwir a chael adborth yn syth. Roedd y grŵp rheolydd yn gwyllo cyfres o fideos ar gyfrifiadur yn hytrach na chael eu trochi drwy'r dechnoleg.

**Effaith:** Gwelwyd bod y rhai oedd yn dilyn yr ymyrraeth rhithrealiti wedi sgorio'n well o ran eu medrau deall a chofio wrth wrando, o'u cymharu â'r grŵp rheolydd. Yn ôl yr awduron, mae technoleg rhithrealiti yn ysgogi ymdeimlad o bresenoldeb yn ei ddefnyddwyr sydd yn gwella medrau gwranddo a deall ymhlith dysgwyr Saesneg.

## Casgliadau: Strategaethau Trochi Cynnar a Throchi Hwyr

### Trochi Cynnar

- Ceir tystiolaeth o'r llenyddiaeth fod defnyddio llyfrau dwyieithog a defnyddio cyfnewid cod mewn deunydd darllen yn cefnogi datblygiad ieithyddol dysgwyr mewn addysg drochi gynnar, yn yr iaith darged. Yn ogystal â hynny, mae cael amser darllen 1:1 rhwng oedolion a dysgwyr ifanc yn fuddiol, er enghraifft rhwng plant a'u rhieni.
- Mae'r dystiolaeth a gafodd ei harchwilio ar gyfer yr astudiaeth hon yn nodi y dylai dysgwyr trochi cynnar gael eu haddysgu mewn grwpiau bach. Wrth addysgu grwpiau bach o ddysgwyr mae modd adnabod anghenion penodol dysgwyr, a gall addysgwyr wahaniaethu ar sail yr anghenion hynny.
- Gwelwyd bod siarad athro (teacher talk) yn effeithio ar allu llafar dysgwyr, a bod defnyddio'r iaith darged yn effeithiol (drwy ailadrodd, cadarnhau, manylu ac ymhelaethu) yn rhagfynegi deilliannau ieithyddol y dysgwyr. Nodwyd bod rhaglenni technoleg yn gallu cefnogi datblygu sgiliau darllen mewn addysg drochi, a all gynorthwyo athrawon lle bo adnoddau'n brin.
- Ceir awgrym cryf yn y dystiolaeth nad yw defnyddio iaith darged yn ei hun yn ddigon mewn addysg drochi: rhaid i ddefnydd yr athrawon o'r iaith darged fod yn ystyrlon. Hynny yw, dylai athrawon ddefnyddio iaith sydd yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ymestyn ac ymhelaethu wrth siarad yr iaith darged, yn hytrach na dim ond rhoi cyfarwyddiadau yn yr iaith darged.

## Trochi Hwyr

- Cafwyd hyd i lawer o dystiolaeth fod dulliau sy'n targedu sgiliau darllen yn cefnogi caffael iaith mewn cyd-destunau trochi hwyr. Yn benodol, mae dulliau addysgu darllen drwy ffoneg yn gallu helpu dysgwyr i gysylltu ffonemau a graffemau ac i segmentu ffonemau.
- Ceir dadl gref o'r dystiolaeth a gafodd ei harchwilio ar gyfer yr astudiaeth hon fod cyflwyno dwy iaith ar yr un pryd mewn deunydd darllen yn fuddiol.
- Noda'r dystiolaeth bwysigrwydd adnabod cyd-destun ieithyddol y dysgwyr wrth ystyried datblygiad ieithyddol mewn cyd-destunau trochi hwyr, a bod hyn yn ymestyn i ystyried anghenion unigol dysgwyr.
- Mae'r dystiolaeth yn adrodd fod CLIL yn arf effeithiol ar gyfer datblygu hyder dysgwyr, gwella gwybodaeth am bynciau ar wahân i'r iaith darged, ac ar gyfer datblygu medrau ieithyddol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn brin o ran manylu ar yr union fedrau.
- Gwelwyd o'r astudiaethau bod dulliau cyfathrebol yn helpu dysgwyr i gaffael yr iaith darged. Cafwyd dystiolaeth fod grwpiau bychain yn annog dysgwyr i ddefnyddio'r iaith darged yn amlach. Trwy ddefnyddio cyrchddull echblyg anwythol (sef bod dysgwyr yn mynd ati i ganfod rheolau strwythur gramadegol drostynt eu hunain), arfogwyd dysgwyr i weithio gyda chyfoedion er mwyn datblygu a chofio rheolau gramadeg yn well.
- Mae dystiolaeth i awgrymu fod defnyddio gemau neu dechnoleg i gynorthwyo dysgu iaith / ieithoedd yn gallu bod yn effeithiol. Yn benodol, mae technoleg rhithrealiti yn gallu meithrin ymdeimlad o bresenoldeb sy'n ategu'r profiad o drochi.

### 3. Cyrchddulliau i ymdrin ag amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol a phrofiadau ieithyddol blaenorol ymhlith carfannau neu grwpiau o ddysgwyr

Roedd pump eitem o dystiolaeth yn trafod y sefyllfa mewn dosbarthiadau trochi ble roedd y dysgwyr yn dod o gefndiroedd mudo, a chefniroedd ieithyddol amrywiol eraill.

#### Targedu cymhwysedd ieithyddol

1. **Beth:** Effaith addysg drochi ar ddatblygiad llythrennedd mewnfudwyr.

**Sut:** Mae ymchwil Poarch a Bialystok (2017) yn canolbwyntio ar ddatblygu llythrennedd dysgwyr (8-16 oed) mewn iaith darged (**Almaeneg**), na siaredir ar yr aelwyd, sydd yn dod o gefndiroedd ieithyddol â phrofiadau ieithyddol gwahanol. Mewn adolygiad o'r llenyddiaeth ryngwladol, maent yn trafod effaith addysg drochi ar ddatblygiad llythrennedd mewnfudwyr. Mae'r awduron yn dadlau fod angen i wneuthurwyr polisi yr Almaen gefnogi dysgwyr sydd wedi mudo i'r wlad i gynnal eu hiaith dreftadaeth yn ogystal â iaith fwyafrifol y wlad.

**Effaith:** Cefnogi dysgwyr i gynnal eu hiaith dreftadaeth yw'r cyrchdull dan sylw sydd, yn ôl yr awduron, yn cynorthwyo'r gwaith o drochi dysgwyr. Yn ôl eu hasesiad hwy o'r cyd-destun rhyngwladol, pan fydd systemau addysg yn hybu llythrennedd yn yr iaith frodorol maent yn dangos eu bod yn ystyried yr ieithoedd hynny yn rhinweddau gwerthfawr.

## 2. **Beth:** Datblygu ymwybyddiaeth feta-ieithyddol.

**Sut:** Mae ymchwil Mady (2015) yn rhagdybio y byddai dull oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu ymwybyddiaeth feta-ieithyddol yn effeithio ar gymhwysedd ieithyddol mudwyr i Ganada oedd yn dysgu **Saesneg** a **Ffrangeg** mewn addysg drochi. Roedd y dysgwyr yn yr astudiaeth hon rhwng 11 a 12 oed, ac wedi'u trochi ers 6 mlynedd pan gasglwyd y data.

**Effaith:** Er bod y garfan o fudwyr wedi perfformio'n well mewn profion iaith (oedd yn mesur medrau ieithyddol amrywiol) na'u cyfoedion oedd wedi'u magu yng Nghanada, ni chafwyd tystiolaeth o gydberthyniad gadarnhaol rhwng ymwybyddiaeth feta-ieithyddol y dysgwyr oedd wedi mudo gyda'r sgorau uwch. Hynny yw, nid oedd y dysgwyr yn sgorio'n well ar draws medrau ieithyddol os oedd eu sgôr am ymwybyddiaeth feta-ieithyddol yn uwch. Tybir bod ffactorau cyd-destunol eraill yn dylanwadu ar allu ieithyddol yn achos y data hyn.

## Strategaethau yn y dosbarth

### 3. **Beth:** Strategaethau addysgu: cefnogi lles a'r defnydd o ieithoedd cartref y dysgwr.

**Sut:** Cynhaliodd Reese et al. (2018) gyfweiliadau gydag addysgwyr rhaglenni trochi **Catalaneg** ac arsylwadau o fewnfudwyr oedd yn ddysgwyr mewn rhaglenni trochi Catalaneg. Rhoddwyd sylw i strategaethau addysgu megis cefnogi lles emosiynol, a'r defnydd o ieithoedd cartref y dysgwyr. Pwrpas yr ymchwil oedd mesur i ba raddau roedd athrawon yn teimlo bod fewnfudwyr wedi ymgartrefu yn yr ysgolion i'r graddau eu bod yn defnyddio'r iaith. Cafodd y dysgwyr eu trochi'n 'gyflym' mewn ffyrdd amrywiol, e.e.,

- 'aula d'acollida' (dosbarth derbyn/croeso) yn tynnu dysgwyr allan o'r dosbarth er mwyn rhoi gwersi iaith penodol yn ystod yr wythnos
- strategaeth 'desdoblament', sef rhoi dau addysgwr mewn dosbarth er mwyn rhoi sylw ychwanegol i newydd-ddyfodiaid.

**Effaith:** Canfuwyd bod yr athrawon yn rhoi pwyslais ar gynhwysiant cymdeithasol (sef ymgorffori'r dysgwyr i strwythurau'r ysgol a'r gymuned). Roedd hyn yn golygu eu bod yn llai tebygol o ddefnyddio ieithoedd cartref y dysgwyr yn y sefydliadau addysg hyn. Ar sail y dystiolaeth, dadl yr awduron yw bod angen mwy o addysg am wahanol ddiwylliannau mewn sefydliadau trochi sydd yn addysgu fewnfudwyr, ac y gall ymwybyddiaeth o ddiwylliannau ac ieithoedd amrywiol gyfrannu at gynhwysiant cymdeithasol y tu hwnt i'r ysgol.

**4. Beth:** Dulliau gwahanol o integreiddio mudwyr i systemau addysg orfodol.

**Sut:** Mae Crul et al. (2019) yn cyflwyno synthesis o ddogfennaeth a llenyddiaeth polisi am fudwyr Syria yn Sweden, yr Almaen, Groeg, Lebanon a Thwrci. Roedd y gwledydd dan sylw yn integreiddio mudwyr o Syria i'w systemau addysg gorfodol gan ddefnyddio dulliau gwahanol, ac yn ôl yr awduron, gyda lefelau gwahanol o lwyddiant, er enghraifft:

**Effaith:**

1. Dull trochi dwys (Sweden), sef cyfnod trochi dwys cymharol fyr yn arwain at integreiddio'r dysgwyr i'r brif ffrwd yn ôl anghenion y dysgwyr. Awgrymwyd gan yr ymchwiler bod y system drochi yma'n gweithio'n dda.
2. Cymorth parhaus, sef cefnogaeth ieithyddol benodol dros gyfnod o amser ar ôl y cyfnod trochi cychwynol. Dengys yr ymchwiler fod y dull hwn yn angenrheidiol i gefnogi mudwyr wrth iddynt fynychu addysg orfodol.

Canfu'r adolygiad fod symud dysgwyr sydd wedi mudo i'r wlad i'r brif ffrwd yn gynnar yn eu taith addysg, fel sy'n digwydd yn Sweden, yn ffordd o osgoi arwahaniad cymdeithasol.

**5. Beth:** Grwpio dysgwyr mewn dosbarthiadau yn ôl cefndir ieithyddol.

**Sut:** Dangosodd ymchwiler Robinson a Sorace (2018) bod grwpio dysgwyr mewn dosbarthiadau yn ôl cefndir ieithyddol yn gallu effeithio ar allu dysgwyr i gaffael **Sbaeneg** fel ail iaith yn yr Alban. Cyfranogwyr yr astudiaeth ymchwiler oedd cyfuniad o fewnfudwyr diweddar i Gaeredin, nad oedd yn siarad Saesneg ar yr aelwyd, a siaradwyr Saesneg brodorol, mewn gwersi iaith.

**Effaith:** Perfformiodd grwpiau lle roedd 95 y cant o ddysgwyr yn uniaith Saesneg (y grŵp homogenaidd) yn waeth mewn tasgau DCCS (Dimensional Change Card Sorting Task) na grwpiau lle roedd 50 y cant o'r dysgwyr yn amlieithog (y grŵp heterogenaidd), a chanran uchel o'r rheini yn fudwyr diweddar i'r Alban a heb gaffael y **Saesneg**.

Defnyddir tasgau DCCS er mwyn mesur swyddogaeth weithredol (executive function), ble mae dysgwyr yn didoli set o gardiau yn ôl dimensiynau, lliw a siâp. Roedd y dysgwyr uniaith Saesneg yn y grŵp heterogenaidd hefyd yn perfformio'n well na'u cyfoedion yn y grŵp homogenaidd, a hynny o bosibl oherwydd eu bod yn rhyngweithio gyda dysgwyr amlieithog. Honna'r awduron fod cyfuno dysgwyr o gefndiroedd ieithyddol gwahanol yn gallu bod o fudd i siaradwyr uniaith wrth ddysgu ail iaith o'r newydd.



## **Casgliadau: Cyrchddulliau i ymdrin ag amrywiaeth o gefndiroedd ieithyddol a phrofiadau ieithyddol blaenorol ymhlith carfannau neu grwpiau o ddysgwyr**

- Mae'r dystiolaeth a gafodd ei harchwilio yn yr adolygiad hwn am ddefnyddio ieithoedd amrywiol mewn dosbarthiadau trochi lle mae'r dysgwyr yn dod o gefndiroedd iaith amrywiol yn dangos nad yw ymwybyddiaeth feta-ieithyddol yn arwain at allu uwch yn yr iaith darged.
- Gwelwyd bod defnyddio iaith aelwyd y dysgwyr yn bwysig er mwyn dangos bod gwerth i'r ieithoedd aelwyd hynny. Cafwyd awgrym fod angen addysg rhyng-ddiwyllynnol er mwyn hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, ac y gallai symud mudwyr i'r brif ffrwd yn gynnar helpu gyda hyn. Fodd bynnag, amwys oedd y cysylltiad rhwng gweld gwerth mewn ieithoedd a chaffael cymhwysedd ieithyddol yn effeithiol.
- Mae'r astudiaethau yn cynnwys tystiolaeth bod cymysgu grwpiau uniaith ac amlieithog yn cael effaith gadarnhaol ar allu ieithyddol pob dysgwr, nid mudwyr yn unig.

## 4. Ystyriaethau penodol sydd yn haeddu sylw o ran Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) a darpariaeth drochi

Roedd saith eitem o dystiolaeth yn ystyried anghenion dysgu ychwanegol.

### Targeddu cymhwysedd ieithyddol

1. **Beth:** Ymyraethau caffael geirfa wrth ddarllen ar y cyd (dysgwyr dwyieithog cyfodol 3-5 oed ag ADY yn y blynyddoedd cynnar) yn seiliedig ar adolygiad systematig o 19 o astudiaethau ymchwil gan Kong a Hurless (2021). Disgrifia'r 19 astudiaeth a adolygwyd amrywiaeth o ddulliau i addysgu geirfa newydd.

**Sut:** Y dulliau a adroddwyd amlaf oedd diffiniadau geiriau (sef egluro diffiniad y geiriau neu ynganu'r geiriau) ac amlygu'r geiriau drwy ailadrodd. Dull arall oedd darparu ystumiau / cymorth gweledol (megis pwyntio at y llun a darparu ystumiau neu gymhorthion gweledol), ysgogiadau / ymatebion cyfathrebol (gan gynnwys cymryd tro mewn sgwrs, ehangu / ymhelaethu, modelu, a rhoi adborth i ymatebion y dysgwyr), a chysylltiad semantig (oedd yn cysylltu cysyniadau newydd â chysyniadau cyfarwydd).

**Effaith:** Mae'r awduron yn dod i'r casgliad bod pob ymyrraeth geirfa yn gyffredinol yn cefnogi datblygiad dysgwyr ADY, a bod mewnblannu elfen ychwanegol i'r cyfarwyddyd (megis trafodaeth ryngweithiol oedd yn gofyn i blant ymateb yn benodol) yn cyflymu eu datblygiad ieithyddol.

2. **Beth:** Mae astudiaeth Przymus ac Alvarado (2019) yn trafod defnydd trawsieithu wrth ailadrodd storïau fel dull asesu ADY mewn dysgwyr dwyieithog cyfodol yn Unol Daleithiau America.

**Sut:** Roedd y dysgwyr yn yr astudiaeth ym mlwyddyn 8 ac yn mynychu ysgol uwchradd drochi ddeuol **Saesneg-Sbaeneg** ac yn siarad **Sbaeneg, Tigrinya, a Tzotzil** ar yr aelwyd. Fel rhan o'r astudiaeth, roedd gan y dysgwyr gyfle i drawsieithu wrth ail-adrodd stori gan ddefnyddio Saesneg, Sbaeneg neu unrhyw iaith yr oeddent yn ei siarad gartref.

**Effaith:** Deuir i'r casgliad bod rhoi cyfleoedd i unigolion ddefnyddio eu repertoire ieithyddol llawn yn eu galluogi i dderbyn asesiad ADY teg. Roedd cynnwys trawsieithu yn yr asesiad yn galluogi dysgwyr i ddefnyddio repertoire mwy cynhwysfawr, a arweiniodd at ddata mwy cywir am fedrau iaith y cyfranogwyr er mwyn gallu pennu a oedd ganddynt ADY penodol.

Mae Przymus ac Alvarado (2019) yn tynnu sylw at ystyriaethau wrth asesu ar gyfer ADY mewn poblogaeth ddwyieithog ac yn argymhell gwaith pellach ar greu asesiadau safonedig ar gyfer poblogaethau sydd ddim yn uniaith.

3. **Beth:** Ymyrraeth yn targedu dealltwriaeth wrth ddarllen yn yr iaith darged.

**Sut:** Mae Sanabria et al. (2022) yn ystyried y rhaglen EMBRACE (Enhanced Moved by Reading to Accelerate Comrehension in English) gyda phlant rhwng 11 a 14 mlwydd oed sydd mewn addysg drochi ddeuol yn Unol Daleithiau America. Dangosodd tystiolaeth flaenorol fod anawsterau darllen yn gyffredin mewn plant â nam iaith.

Bwriad y rhaglen EMBRACE yw targedu dealltwriaeth yn benodol, yn enwedig wrth ddysgu darllen mewn ail iaith. Fel rhan o'r ymyrraeth, mae dysgwyr yn symud delweddau ar iPad er mwyn dangos dealltwriaeth o storïau.

**Effaith:** Dangosodd canlyniadau'r astudiaeth nad oedd gwahaniaethau arwyddocaol mewn cywirdeb dealltwriaeth darllen ar ôl derbyn yr ymyrraeth, ond bod effaith gadarnhaol i'w weld ar blant â medrau darllen gwan, yn enwedig wrth ymgymryd â thestunau haws.

4. **Beth:** Mae astudiaeth Wise et al. (2015) yn ystyried hyfforddiant ymwybyddiaeth ffonolegol ar gyfer darllenwyr agored i risg mewn cyd-destun trochi cynnar Ffrangeg yng Nghanada.

**Sut:** Derbyniodd y grŵp arbrofol hyfforddiant ymwybyddiaeth ffonolegol yn ogystal â chyfarwyddyd cyfatebiaeth llythyren-sŵn (letter-sound correspondence instruction) ddwywaith yr wythnos am ddeunaw wythnos. Fel rhan o'r ymyrraeth daeth dysgwyr i ddeall bod brawddegau yn cynnwys geiriau, geiriau yn cynnwys sillafau, a sillafau wedi'u gwneud o synau neu ffonemau unigol. Cynyddodd y dilyniant hwn ymwybyddiaeth y plant o unedau lleferydd, a thros amser, dysgon nhw i'w cynhyrchu a'u trin.

**Effaith:** Gwelwyd gwahaniaeth arwyddocaol i'r grŵp arbrofol yn syth wedi'r ymyrraeth, a dwy flynedd wedyn, sy'n awgrymu fod ymyrraethau yn ymwneud â ffoneg yn gallu mynd i'r afael â diffygion ymwybyddiaeth ffoneg ar gyfer darllenwyr agored i risg mewn cyd-destun trochi cynnar.

## Strategaethau yn y dosbarth

5. **Beth:** Cyflwynir gan Landry et al. (2019) astudiaeth ar ddull o grwpio plant ifanc mewn addysg drochi ddeuol (Sbaeneg a Saesneg) cynnar yn Unol Daleithiau America ac effaith hynny ar ddeilliannau cymdeithasol ac ymddygiadol dysgwyr ADY.

**Sut:** Mae 'Preparing Pequeños' yn rhaglen gyfarwyddyd wybyddol ar gyfer grwpiau bach sydd wedi eu targedu. Cyfieithiad i'r **Sbaeneg** yw'r rhaglen o gyfres o weithgareddau llythrennedd sydd eisoes wedi'u cymeradwyo i ddatblygu medrau iaith. Roedd medrau darllen y plant wedi eu categorio'n wan a phwysleisir gan yr awduron bwysigrwydd gallu ateb y galw o ran anghenion unigol plant ag ADY o fewn dosbarth trochi deuol.

**Effaith:** Gwelwyd effaith gadarnhaol y rhaglen ar y dysgwyr dan sylw. Dangosa canlyniadau'r arbrawf bwysigrwydd defnydd grwpiau bach mewn cyd-destunau trochi deuol yn y blynyddoedd cynnar, ac nad yw'r dull hwn yn cael ei ddefnyddio yn ddigonol.

Mae'r canlyniadau hefyd yn dangos bod plant a oedd wedi cymryd rhan yn y rhaglen 'Preparing Pequeños' wedi gwella eu medrau sosio-emosynol, iaith a llythrennedd oherwydd yr ymyrraeth.

Noda'r awduron fod y dystiolaeth yn awgrymu bod defnyddio grwpiau bach mewn addysg drochi ddeuol gyda phlant â medrau darllen gwan yn ffordd effeithiol o godi safonau. Dangosa'r arbrawf hefyd effaith bositif derbyn hyfforddiant ar raglen 'Preparing Pequeños' ar safon yr addysgu. Er enghraifft, roedd mwy o gyfarwyddyd penodol yn cael ei ddefnyddio mewn grwpiau bach ac roedd addysgwyr yn gallu cefnogi'r plant gan ddefnyddio sgaffaldu (sef cefnogi dysgwr gyda thasg a thynnu'r gefnogaeth yn ôl fesul tipyn).

- 6. Beth:** Mae astudiaeth Calhoon et al. (2007) yn edrych ar / ystyried effeithiolrwydd rhaglen wedi ei chyfyngu gan gyfoedion (peer-mediated) ar gaffael medrau darllen plant 6-7 oed mewn dosbarth dwyieithog dwyffordd (trochi cynnar Sbaeneg / Saesneg). Lleoliad yr astudiaeth oedd Unol Daleithiau America.

**Sut:** Roedd yr astudiaeth yn cynnwys plant ag ADY yn y sampl a dderbyniodd PALS (Peer Assisted Learning Strategies), strategaeth sy'n cael ei hargymell fel atodiad i raglenni craidd dysgu darllen. Fel rhan o'r dull hwn, roedd athrawon yn addysgu plant sut i gydweithio ar weithgareddau cyfyngu gan gyfoedion sy'n cynnwys sesiynau adrodd storïau gyda synau a geiriau.

**Effaith:** Mae canlyniadau'r ymyrraeth yn dangos fod defnyddio PALS wedi bod yn effeithiol wrth gynorthwyo athrawon i addasu cyfarwyddyd i wahanol grwpiau, gan gynnwys plant ag ADY. Roedd PALS wedi arwain at gynnydd mewn rhuglder segmentiad ffonemau (phoneme segmentation fluency), rhuglder geiriau nonsens, a rhuglder darllen llafar yn y dysgwyr.

## Priodweddau addysgwyr

7. **Beth:** Mae astudiaeth Nic Aindriú et al. (2023) yn trafod dylunio a chynnwys cwrs datblygiad proffesiynol ar-lein ar gyfer addysgwyr yn Iwerddon. Nododd yr awduron fod addysgwyr plant ag ADY mewn addysg drochi yn ei chael hi'n anodd cwrdd ag anghenion dysgu'r plant hynny oherwydd diffyg asesiadau, ymyraethau ac adnoddau yn iaith y ddarpariaeth.

**Sut:** Fel rhan o'r astudiaeth, cynhaliwyd yr hyfforddiant gyda grŵp o addysgwyr, ac yna adroddwyd ar ganlyniadau'r ddarpariaeth. Roedd tair prif elfen i'r cwrs, oedd yn cwmpasu gwybodaeth theoretig ynglŷn â dwyieithrwydd a chaffael ail iaith, asesiadau priodol ar gyfer plant yn dysgu ail iaith, a strategaethau ac ymyraethau i gynorthwyo addysgwyr i ddarparu cynnwys yn briodol mewn cyd-destun dwyieithog neu drochi.

Roedd y cwrs yn cynnwys, ymhlith eraill, yr ymyraethau canlynol:

- Sesiynau myfyrio ar wersi
- Creu cynlluniau gweithredu ar gyfer dysgwyr unigol
- Tasgau chwarae rôl
- Arsylwadau
- Dadansoddi sampl lleferydd ac iaith
- Datblygu llyfrgell o adnoddau i'w rhannu

**Effaith:** Roedd adborth yr addysgwyr tuag at y cwrs yn gadarnhaol ond roedd diffyg amser yn sialens i bob un ohonynt. Teimlai'r holl gyfranogwyr fod pob modiwl yn effeithiol o ran datblygu gallu ieithyddol y dysgwyr, ac mai'r elfennau mwyaf defnyddiol oedd syniadau realistig ar gyfer rhoi strategaethau addysgol ar waith.

**Casgliadau: Ystyriaethau penodol sydd yn haeddu sylw o ran anghenion dysgu ychwanegol a darpariaeth addysg drochi**

- Mae sgôp i gefnogi disgyblion ag ADY mewn dosbarthiadau trochi ac mae addysgu mewn grwpiau bach ac annog cydweithio rhwng cyfoedion yn ffyrdd effeithiol o wella medrau ieithyddol gan ystyried ADY penodol y dysgwyr.
- Gwelwyd bod trawsieithu yn gallu cynorthwyo i adnabod ac asesu ADY dysgwyr amlieithog.
- Dengys y dystiolaeth fod ymyrraeth ffoneg yn gallu mynd i'r afael â diffygion ymwybyddiaeth ffoneg.

## Troednodiadau

[1] Estyn. (2022). *Addysg Drochi Cymraeg - Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed*.

[2] Mae'n ofynnol i leoliadau meithrin nas cynhelir cofrestredig, sydd wedi eu cymeradwyo a'u cyllido gan yr awdurdod lleol, fabwysiadu cwricwlwm sy'n bodloni gofynion cyfreithiol y Cwricwlwm i Gymru. Yn unol â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant wedi'i Reoleiddio, caiff lleoliadau nas ariennir hefyd eu hannog i ymgorffori'r cwricwlwm yn eu gwaith: (Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer gofal plant wedi'i reoleiddio).

[3] Williams, C. (2008). Trochi leithyddol Cyfnod Canolig a Hwyr: Modelau Sefydledig a'r Rhai sy'n Ymddangos yng Nghymru, yn Creu Cymru Ddwieithog: Rôl y Gymraeg mewn Addysg. *Sefydliad Materion Cymreig*. tt. 17-29.



## Termau

Lluniwyd y rhestr isod at ddiben yr astudiaeth hon, ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu defnydd ehangach o'r termau hyn.

<b>Term Cymraeg</b>	<b>Term Saesneg</b>
addysg drochi ddeuol	dual language immersion
chwarae sosio-ddramatig wedi'i gyfryngu gan athrawon	teacher mediated socio-dramatic play
cynhwysiant cymdeithasol	social inclusion
cyfarwyddyd penodol	explicit instruction
darllenwyr agored i risg	at risk readers
deulythrennedd / deulythrennog	biliteracy / biliterate
dosbarth dwyieithog dwyffordd	two-way bilingual classroom
(dysgwr) dwyieithog cyfodol	emerging bilingual
dysgwyr iaith deuol	dual language learners
iaith dreftadaeth	heritage language
llythrennedd pâr	paired literacy

rhaglen wedi ei chyfyngu gan gyfoedion	peer-mediated programme
rhuglder segmentiad ffonemau	phoneme segmentation fluency
siarad athro	teacher talk

## Llyfryddiaethau

### Eitemau a gafodd eu cynnwys yn y cam datblygu synthesis (Cam 4)

Berens, M.S., Kovelman, I. a Petitto, L.A. (2013). Should Bilingual Children Learn Reading in Two Languages at the Same Time or in Sequence? *Bilingual Research*, 36(1), tt. 35–60.

Bergström, K., Klätte, M., Steinbrink, C. a Lachmann, T. (2016). First and Second Language Acquisition in German Children Attending a Kindergarten Immersion Program: A Combined Longitudinal and Cross-Sectional Study. *Language Learning*, 66(2), tt.386–418.

Butvilofsky, S.A., Hopewell, S., Escamilla, K. a Sparrow, W. (2016). Shifting Deficit Paradigms of Latino Emerging Bilingual Students' Literacy Achievement: Documenting Biliterate Trajectories. *Journal of Latinos and Education*, 16(2), tt.85–97.

Calhoon, M.B., Al Otaiba, S., Cihak, D., King, A., ac Avalo, A. (2007) 'Effects of a peer-mediated program on reading skill acquisition for two-way bilingual first-grade classrooms', *Learning Disability Quarterly*, 30(3), tt. 169–184.

Costa, F. a Guasti, M.T. (2021). Is Bilingual Education Sustainable? *Sustainability*, 13 (24),

Crul, M., Lelie, F., Biner, Ö., Bunar, N., Keskiner, E., Kokkali, I., Schneider, J. a Shuayb, M. (2019). How the different policies and school systems affect the inclusion of Syrian refugee children in Sweden, Germany, Greece, Lebanon and Turkey. *Comparative Migration Studies*, 7(1).

Graham, S., Silva, M. a Restrepo, M.A. (2022). Reading Intervention Research with Emergent Bilingual students: a meta-analysis. *Reading and Writing*.

Hickey, T.M. (2007). Children's Language Networks in Minority Language Immersion: What Goes In May Not Come Out. *Language and Education*, 21(1), tt.46–65.

Hickey, T.M. a de Mejía, A.-M. (2014). Immersion education in the early years: a special issue. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 17(2), tt.131–143.

Hickey, T.M., Lewis, G. a Baker, C. (2013). How deep is your immersion? Policy and practice in Welsh-medium preschools with children from different language backgrounds. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 17(2), tt.215–234.

Hipfner-Boucher, K., Lam, K. a Chen, X. (2016). The Effects of Bilingual Education on the English Language and Literacy Outcomes of Chinese-speaking Children. Yn: E. Zaretsky a M. Schwartz, goln., *Cross-linguistic Transfer in Reading in Multilingual Contexts*. Amsterdam: John Benjamins Publishing Company, tt.121–143.

Kane, C., Sandilos, L., Hammer, C.S., Komaroff, E., Bitetti, D. a López, L. (2023). Teacher language quality in preschool classrooms: Examining associations with DLLs' oral language skills. *Early Childhood Research Quarterly*, 63, tt.352–361.

Kong, N.Y. a Hurless, N. (2021) 'Vocabulary interventions for young emergent bilingual children: A systematic review of experimental and quasi-experimental studies', *Topics in Early Childhood Special Education*, 43(1).

Landry, S.H., Assel, M., Carlo, M., Williams, J., Wu, W., a Montroy, J. (2019) 'The effect of the preparing pequeños small-group cognitive instruction program on academic and concurrent social and behavioral outcomes in young Spanish-speaking dual-language learners', *Journal of School Psychology*, 73, tt. 1–20.

Leacox, L. a Jackson, C.W. (2012) 'Spanish vocabulary-bridging technology-enhanced instruction for young English language learners' word learning', *Journal of Early Childhood Literacy*, 14(2), tt. 175–197.

Leighton, M. (2022). Mother tongue reading materials as a bridge to literacy. *Economics of Education Review*, 91.

Lightbown, P.M. (2014). Making the minutes count in L2 teaching. *Language Awareness*, 23(1-2), tt.3–23.

Mady, C. (2015). The bilingual advantage for immigrant students in French immersion in Canada: linking advantages to contextual variables. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 20(3), tt.235–251.

Mady, C. (2019). Novice teachers' perspectives on the use of languages in French as a second language classes that include English language learners: A longitudinal view. *Brock Education Journal*, 28(2), tt.82–95.

Mak, B.S.Y., Cheung, A.C.K., Guo, X., Abrami, P.C. a Wade, A. (2017). Examining the impact of the ABRACADABRA (ABRA) web-based literacy program on primary school students in Hong Kong. *Education and Information Technologies*, 22(6), tt.2671–2691.

Ní Dhiorbháin, A. ac Ó Duibhir, P. (2016). An explicit-inductive approach to grammar in Irish-medium immersion schools. *Language Awareness*, 26(1), tt.3–24.

Nic Aindriú, S., Connaughton-Crean, L., Ó Duibhir, P., a Travers, J. (2023) 'The design and content of an online continuous professional development course in special education for teachers in Irish Immersion Primary and post-primary schools', *Education Sciences*, 13(3), t. 281.

Ó Ceallaigh, T., Ní Mhurchú, S. a Ní Chróinín, D. (2017). Balancing Content and Language in CLIL: the Experiences of Teachers and Learners. *Journal of Immersion and Content-Based Language Education*, 5(1), tt.58–86.

Oattes, H., Fukkink, R., Oostdam, R., de Graaff, R. a Wilschut, A. (2020). A showdown between bilingual and mainstream education: the impact of language of instruction on learning subject content knowledge. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 25(2), tt.1–14.

Outhwaite, L.A., Gulliford, A. a Pitchford, N.J. (2020). Language counts when learning mathematics with interactive apps. *British Journal of Educational Technology*, 51(6), tt.2326–2339.

Pathak, L.S., Rijal, S. a Pathak, P. (2021). Instruction in second language enhances linguistic and cognitive abilities in first language as well: evidence from public school education in Nepal. *Journal of Cultural Cognitive Science*, 5(2), tt.287–310.

Poarch, G.J. a Bialystok, E. (2017). Assessing the implications of migrant multilingualism for language education. *Zeitschrift für Erziehungswissenschaft*, [ar-lein] 20(2), tt.175–191.

Przymus, S.D. (2016). Challenging the monolingual paradigm in secondary dual-language instruction: Reducing language-as-problem with the 2–1-L2 model. *Bilingual Research Journal*, 39(3-4), tt.279–295.

Przymus, S.D. ac Alvarado, M. (2019) 'Advancing bilingual special education: Translanguaging in content-based story retells for distinguishing language difference from disability', *Multiple Voices for Ethnically Diverse Exceptional Learners*, 19(1), tt. 23–43.

Read, K., Contreras, P., Rodriguez, B., a Jara, J. (2020) '¿Read conmigo?: The effect of code-switching storybooks on dual-language learners' retention of new vocabulary', *Early Education and Development*, 32(4), tt. 516–533.

Reading, S. (2009) 'Differential effects of French and Spanish immersion education on English literacy skills', *Bilingual Research Journal*, 31(1–2), tt. 115–145.

Reese, L., Silva, P., Antúnez, S. a del-Arco, I. (2018). Linguistic and cultural rights of immigrant students in Catalonia: perspectives and practices of educators in four elementary schools. *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 24(2), tt.224–241.

Robinson, M.G. a Sorace, A. (2018). The influence of collaborative language learning on cognitive control in unbalanced multilingual migrant children. *European Journal of Psychology of Education*, 34(1), tt.255–272.

Rolstad, K., Mahoney, K. a Glass, G.V. (2005). The Big Picture: A Meta-Analysis of Program Effectiveness Research on English Language Learners. *Educational Policy*, 19(4), tt.572–594.

Sanabria, A.A., Restrepo, M., Walker, E., a Glenberg, A. (2022) 'A reading comprehension intervention for dual language learners with weak language and reading skills', *Journal of Speech, Language, and Hearing Research*, 65(2), tt. 738–759. doi:10.1044/2021\_jslhr-21-00266.

Schwarz, M., Deeb, I. a Dubiner, D. (2020) "When they act, they speak more": Strategies that encourage language production in a bilingual preschool', *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 25(3), tt. 800–818.

Tai, T.Y. a Chen, H.H.-J. (2021). The Impact of Immersive Virtual Reality on EFL Learners' Listening Comprehension. *Journal of Educational Computing Research*, 59(7).

Tong, F., Zhang, H., Zhen, F., Irby, B.J. a Lara-Alecio, R. (2021). 'Supporting home literacy practices in promoting Chinese parents' engagement in their children's English education in low-SES families: An experimental study', *International Journal of Educational Research*, 109.

Wang, Z. (2021) A Systematic Review of Effective Instructional Interventions in Supporting Kindergarten English Learners' English Oral Language Development. *Sustainability*, 13(22) tt. 1-16.

Wise, N., D'Angelo, N. a Chen, X. (2015) 'A school-based phonological awareness intervention for struggling readers in early French immersion', *Reading and Writing*, 29(2), tt. 183–205.

Yeung, S.S., Ng, M., Qiao, S. a Tsang, A. (2019). Effects of explicit L2 vocabulary instruction on developing kindergarten children's target and general vocabulary and phonological awareness. *Reading and Writing*, 33(3).

#### **Eitemau a gafodd eu heithrio yn y cam datblygu synthesis (Cam 4)**

Acquah, E. O. a Katz, H. T. (2020) Digital game-based L2 learning outcomes for primary through high-school students: A systematic literature review, *Computers & Education*, 143, tt. 1-19.

Atay, D. a Kurt, G. (2006) Elementary School EFL Learners' Vocabulary Learning: The Effects of Post-Reading Activities, *Canadian Modern Language Review/ La Revue canadienne des langues vivantes* 63(2), tt. 255-273.

Barnett, W. S., Yarosz D. J., Thomas, J., Jung, K. a Blanco, B. (2007) Two-way and monolingual English immersion in preschool education: An experimental comparison, *Early Childhood Research Quarterly*, 22(3), tt. 277-293.

Buysse, V., Castro D. C. a Peisner-Feinberg E. (2010) Effects of a professional development program on classroom practices and outcomes for Latino dual language learners, *Early Childhood Research Quarterly*, 25(2) tt. 194-206.

Cheung, A. C. K. a Slavin, R. E. (2012). Effective Reading Programs for Spanish-Dominant English Language Learners (ELLs) in the Elementary Grades: A Synthesis of Research. *Review of Educational Research*, 82(4), tt. 351–395.

Fa'asaulala Tagoilelagi-LeotaGlynn, Stuart McNaughton, Shelley MacDonald a Sasha Farry (2005) Bilingual and Biliteracy Development Over the Transition to School, *International Journal of Bilingual Education and Bilingualism*, 8(5), tt. 455-479,

Gorman, B. K., Martinez, G. a Pina Garcia, L. (2021) Dual-language narrative intervention outcomes for a bilingual adolescent with down syndrome, *Bilingual Research Journal*, 44(4), tt. 444-465.

Heller, M. C., Lervåg, A., a Grøver, V. (2019). Oral Language Intervention in Norwegian Schools Serving Young Language-Minority Learners: A Randomized Trial. *Reading Research Quarterly*, 54(4), tt. 531–552.

Huang, B.H., Bedore, L.M., Ramirez, R. a Wicha, N. (2022) Contributions of Oral Narrative Skills to English Reading in Spanish–English Latino/a Dual Language Learners, *Journal of Speech, Language and Hearing Research (Online)*, 65(2), tt. 653-671.

Karousou, A., a Nerantzaki, T. (2022). Phonological memory training and its effect on second language vocabulary development. *Second Language Research*, 38(1), tt. 31-54.

Kovelman, I., Salah-Ud-Din, M., Berens, M. S. a Petitto L. (2015) “One glove does not fit all” in bilingual reading acquisition: Using the age of first bilingual language exposure to understand optimal contexts for reading success, *Cogent Education*, 2(1), tt. 1-12.

Llywodraeth Cymru. (2018). Ymagweddau a dulliau addysgu ail iaith effeithiol: asesiad cyflym o'r dystiolaeth.

Macaruso, P. a Rodman, A. (2011) Benefits of Computer-Assisted Instruction to Support Reading Acquisition in English Language Learners, *Bilingual Research Journal*, 34(3), tt. 301-315.

Manoli, P., Papadopoulou, M. a Metallidou, P. (2016) Investigating the immediate and delayed effects of multiple-reading strategy instruction in primary EFL classrooms, *System*, 56, tt. 54-65.

Mirjam Günther-van, d.M., Duarte, J. a Nap, L. (2020) Including multiple languages in secondary education: A translanguaging approach, *European Journal of Applied Linguistics*, 8(1), tt. 73-106.

Pollard-Durodola S. D., Gonzalez J. E., Saenz L., Soares, D., Davis, H. S., Resendez, N. a Zhu, L. (2022) The Social Validity of Content Enriched Shared Book Reading Vocabulary Instruction and Preschool DLLs' Language Outcomes, *Early Education and Development*, 33(7), tt. 1175-1197.

Portes, P. R., Canché, M. G., Boada, D. a Whatley, M. E. (2018). Early Evaluation Findings From the Instructional Conversation Study: Culturally Responsive Teaching Outcomes for Diverse Learners in Elementary School. *American Educational Research Journal*, 55(3), tt. 488–531.

Rios-Aguilar, C., Canche, M. S. G. a Moll, L. C. (2012). A Study of Arizona's Teachers of English Language Learners. *Teachers College Record*, 114(9), tt. 1-33.



Roberts, G.J., Hall, C., Eunsoo, C., Coté Brooke, Lee, J., Bingxin, Q. a Jacklyn, V.O. (2022) The State of Current Reading Intervention Research for English Learners in Grades K–2: a Best-Evidence Synthesis, *Educational Psychology Review*, 34(1), tt. 335-361.

Shifang, T., Irby, B.J., Fuhui, T. a Lara-Alecio, R. (2021) The Effects of Cooperative, Collaborative, and Peer-Tutoring Strategies on English Learners' Reading and Speaking Proficiencies in an English-Medium Context: A Research Synthesis, *Sage Open*, 11(4) tt. 1-17.

Short, D. J., Fidelman, C. G. a Louguit, M. (2012). Developing Academic Language in English Language Learners Through Sheltered Instruction. *TESOL Quarterly*, 46(2), tt. 334–361.

Tong, F., Lara-Alecio, R., Irby, B., Mathes, P. a Kwok, O. (2008). Accelerating Early Academic Oral English Development in Transitional Bilingual and Structured English Immersion Programs. *American Educational Research Journal*, 45(4), tt. 1011–1044.

Wang, Z. (2021) A Systematic Review of Effective Instructional Interventions in Supporting Kindergarten English Learners' English Oral Language Development, *Sustainability (Basel, Switzerland)*, 13(22), tt. 1-16.

Young Park, A. (2020) A comparison of the impact of extensive and intensive reading approaches on the reading attitudes of secondary EFL learners, *Studies in Second Language Learning and Teaching*, 10(2), tt. 337-358.

Awduron: Kathryn Jones ac Iolo Jones (IAITH: y ganolfan cynllunio iaith); Rhiannon Packer, Mirain Rhys, Katharine Young ac Adam Pierce (Prifysgol Metropolitan Caerdydd)



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

Adroddiad ymchwil llawn: Jones, K., Jones, I., Rhys, M., Young, K. a Pierce, A. (2024). Aseiad Cyflym o'r Dystiolaeth: Cyrchdulliau a dulliau effeithiol mewn addysg drochi. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 37/2024.

Ar gael yn: <https://www.llyw.cymru/cyrchdulliau-dulliau-effeithiol-mewn-addysg-drochi-aseiad-cyflym-or-dystiolaeth>

Safbwyntiau'r ymchwilwyr ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil y Gymraeg  
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth  
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi  
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays  
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: [Ymchwil.Cymraeg@llyw.cymru](mailto:Ymchwil.Cymraeg@llyw.cymru)

**OGL** © Hawlfraint y Goron ISBN digidol 978-1-83625-275-7